

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 5ed o HYDREF 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Y Cynghorydd C.Larsen (Is-gadeirydd – yn y Gadair)
Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, D.L.Jones, E.Lovgreen, W.R.Owen,
W.Tudor Owen, J.W.Parry, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr E.R.Hughes, B.Owen, S.Sage, Ei Theilyngdod Y Maer –
Cynghorydd M.Sarnacki

2. Cyhoeddiadau'r Maer

24/09/2021 Drysau Agored i Ysgolion, Adeilad yr Institiwt

25/09/2021 Drysau Agored i'r Cyhoedd, Adeilad yr Institiwt

26/09/2021 Rali Ceir, Cylch Cyfeillgarwch y Trefi Caerog

03/10/2021 Sul y Maer, Adeilad yr Institiwt

3. Datgan Buddiant Personol

Dim.

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

(1) Ymgynghoriad Ar-Lein: Dyfodol Ffordd Liniaru Fewnol Caernarfon

Nododd y Clerc fod yr Ymgynghoriad Ar-Lein: Dyfodol Ffordd Liniaru Fewnol Caernarfon yn fyw hyd at y 1af o Dachwedd, a bod mwy o wybodaeth a holiadur ar-lein i'w weld yn:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Dyfodol-y-Ffordd-Liniaru-Fewnol-Caernarfon.aspx>

(2) Cais Cynllunio - Hen Safle Ferodo

Nododd y Clerc bod Cyngor Cymuned y Felinheli yn awyddus i gael cyfarfod ar y cyd ar gyfer ystyried yr uchod, unwaith fydd y cyfarfodydd Cynllunio perthnasol wedi trafod y mater. Bydd yn trafod y ffordd orau ymlaen efo Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 7fed o Fedi 2021

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Derbyn fel rhai cywir, yn amodol ar newid y gair “rwn” i “ran” yn eitem 24 – Cwestiynau - Y Cynghorydd Cemlyn Williams, fel a ganlyn:

“Gofynnodd y Cynghorydd Cemlyn Williams os oedd gan y Cyngor Tref bolisi o ran gwneud Caernarfon yn dref di-blastig.”

(2)Cynnwys cofnodion y Pwyllgor Cynllunio er gwybodaeth yn rhaglen y Cyngor Llawn o hyn allan.

ii. Pwyllgor Adloniant, 14eg o Fedi 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

iii. Pwyllgor Gwaith, 28ain o Fedi 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

6.Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).

7.Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

8. Cyflenwad trydan Adeilad yr Institiwt.

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Clerc ar gyflenwad trydan Adeilad yr Institiwt.

Nododd bod penderfyniad wedi ei wneud i ddirprwyo'r hawl i wneud penderfyniad o ran cyflenwad trydan yr Institiwt i'r Maer, y Clerc a'r Dirprwy Glerc. Roedd y tri wedi dod at ei gilydd i edrych ar opsiynau ac wedi penderfynu mynd am gynnig 3 blynedd gan y cyflenwr presennol, sef Pozitive Energy.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

9. Ymgynghoriad ar ddefnydd peryglus cychod dwr hamdden a phersonol (yn enwedig Jet skis).

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Un Llais Cymru ar y pwnc.

Nodwyd:

- (1) Y cyhoeddwyd ymgynghoriad gan yr Adran Drafnidiaeth ar ddeddfwriaeth newydd i gryfhau gorfodaeth ar ddefnydd peryglus cychod dŵr hamdden a phersonol:
- (2) Bod y ddeddfwriaeth newydd wedi'i chynllunio i gymhwyso deddfwriaeth llongau masnach ehangach berthnasol i ddefnyddwyr cychod dŵr hamdden a phersonol sy'n fwriadol, neu'n esgeulus, yn camddefnyddio neu'n peryglu diogelwch eraill.
- (3) Bod yr ymgynghoriad yn rhedeg hyd at y 1af o Dachwedd 2021.

Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorwyr A.Hopcyn, I.C.Thomas a'r Dirprwy Clerc ymgynnull er mwyn llunio ymateb ar ran y Cyngor (unfrydol).

Gadawodd y Cyngorydd W.R.Owen y cyfarfod am 6.15 p.m. oherwydd problemau technegol.

10. Ymgynghoriad agored ar ganllawiau arfaethedig yn ymwneud ag "Egwyddorion Gweinyddu Da" a "Rheoli Cofnodion yn Dda".

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar yr ymgynghoriad, sy'n cau ar y 1af o Dachwedd 2021.

Nodwyd:

- (1) Bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ceisio barn ar ddiwygiadau arfaethedig i Ganllawiau'r Ombwdsmon ar arfer Gweinyddu Da.
- (2) Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n dod o fewn gylch gwaith OGCC ystyried canllawiau OGCC wrth gyflawni eu swyddogaethau. Wrth ymchwilio i gwynion, gall OGCC ystyried i ba raddau y mae corff cyhoeddus wedi cydymffurfio â Chanllawiau OGCC ar arfer Gweinyddu Da wrth wneud penderfyniadau.
- (3) Y bwriedir rhannu'r Canllawiau yn 2 gyhoeddiad ar wahân; yr "Egwyddorion Gweinyddu Da" a "Rheoli Cofnodion yn Dda". Trwy rannu'r Canllawiau, y nod yw darparu egwyddorion cyffredinol o ran arfer gweinyddu da a rhoi cyngor penodol ar wahân ar arfer gweinyddu da mewn perthynas â rheoli cofnodion i gyrff cyhoeddus ac achwynwyr.

Penderfynwyd gofyn i'r Cyngorydd C.Larsen a'r Clerc ymgynnull er mwyn llunio ymateb ar ran y Cyngor (unfrydol).

11. Digwyddiad 59 Productions.

Cyflwynwyd gwybodaeth gan y Clerc ar ddigwyddiad uchelgeisiol gan 59 Productions fydd yn cymryd lle ym mis Mawrth - Ebrill 2022 yng Nghaernarfon.

Penderfynwyd gwahodd cwmni 59 Productions i roi cyflwyniad i'r Cyngor Llawn yn y dyfodol agos (unfrydol).

12. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorau cymuned a thref.

Cyflwynwyd ymateb Un Llais Cymru i'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorau cymuned a thref.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

13. Ymgynghoriad : Llundain Dyfodol Cymru

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc yn rhoi gwybodaeth o ran yr uchod.

Nododd y Clerc:

- (1) Bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad ar 'Llundain Dyfodol Cymru': Defnyddio cerrig milltir a dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd ein cenedl – Cynigion ar gyfer gosod y gyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru a cheisio barn ar effaith pandemig COVID-19 ar y dangosyddion cenedlaethol.
- (2) Bydd yr ymgynghoriad yn agored hyd at y 26ain o Hydref.
- (3) Erbyn diwedd 2021, bydd y cerrig milltir cenedlaethol cyntaf wedi eu gosod, bydd y dangosyddion cenedlaethol wedi eu diweddarau, a bydd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol wedi'i ddiweddarau. Mae'r rhain yn dair rhan bwysig o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Penderfynwyd gofyn i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau roedd ganddynt i'r Clerc er mwyn iddo fedru llunio ymateb (unfrydol).

14. Galwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ar yr uchod.

Nodwyd:

- (1) Bod aelod o Gymdeithas yr Iaith yn bwriadu beicio o Gaernarfon i Gaerdydd rhwng 11 a 13 Tachwedd i dynnu sylw at yr argyfwng tai sydd yn effeithio ar gymunedau ar draws Cymru.
- (2) Yr atodir copi o lythyr y bydd yn ei gario o Gaernarfon i Gaerdydd.

Penderfynwyd fod y Cyngor Tref yn hapus i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ychwanegu ei enw i'r llythyr, a fydd yn cael ei gyflwyno (gydag enwau'r holl lofnodwyr) i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fel rhan o rali Nid yw Cymru ar Werth, a gynhelir y tu allan i Senedd Cymru ar y 13eg o Dachwedd.

Bu i'r Cynghorydd J.W.Parry ymatal ei bleidlais.

15. Grŵp y Glannau

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad o ran Grŵp y Glannau.

Nodwyd:

- (1) Bod Grŵp y Glannau yn grŵp gweithredol yng Nghaernarfon am rai blynyddoedd oedd yn cynnig cyfle i drawstoriad o sefydliadau rannu gwybodaeth a chynnig diweddariadau ar eu meysydd gwaith, eu cynlluniau a'u blaenoriaethau.
- (2) Yn ddiweddar nid oedd y Grŵp wedi cyfarfod a hynny am amryw o resymau.
- (3) Teimlir ei bod yn amserol i adolygu hyn ac yn estyn allan am farn y sefydliadau oedd yn rhan o'r grŵp gwreiddiol i weld beth yw'r sefyllfa bresennol ac anfonwyd llythyr allan i'r perwyl hwn yn enw Rheolwr Rhaglenni Adfywio Cyngor Gwynedd a Chlerc y Cyngor Tref.
- (4) Yn hanesyddol, ac yn sgil adnoddau o gronfeydd adfywio allanol, Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am arwain y grŵp ond yn fwy diweddar mae'r awydd a'r ymrwymiad wedi dod o gyfeiriad y Cyngor Tref, o fewn ein capasiti presennol, i gymryd rôl fwy cydlynol.
- (5) Cysylltwyd gyda'r sefydliadau fu'n rhan o'r drafodaeth i ofyn a oedd ganddynt awydd i fod yn ystyried ailgydio yng ngwaith y Grŵp.

Penderfynwyd croesawu'r ymdrech i ail-atgyfodi Grŵp y Glannau, a'r ffaith fod y Cyngor Tref yn mynd i chwarae rhan ganolog yn hyn o beth (unfrydol).

16. Rhybudd o Gynnig

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig a ganlyn:

Y Cynghorydd Eleri Lovgreen

“Mae Selar yr Institiwt yn ofod sydd ddim yn cael ei ddefnyddio i'w lawn bwrpas ar hyn o bryd, felly rwy'n cynnig ei fod yn cael ei glirio er mwyn ei neilltuo ar gyfer pethau sy'n ymwneud â lles a budd trigolion y dref. Mae'n cartrefu, yn gwbl briodol, nwyddau'r Carnifal, yr Ŵyl Fwyd a'r Pabis blynyddol, sy'n agos at galonnau trigolion y dref. Byddai'r Selar hefyd yn fan storio hynod ddefnyddiol, dros dro, ar gyfer nwyddau swmpus sy'n cael eu cyfrannu'n hael iawn i O Law i Law (basgedi Moses, coetsys, cadeiriau uchel ayb), menter sydd wedi profi'n hynod boblogaidd yng nghanol y dref.”

Penderfynwyd derbyn y Rhybudd o Gynnig uchod (unfrydol).

17. Cwestiynau

Penderfynwyd y dylai'r Clerc gael rhybudd ysgrifenedig gan aelodau o unrhyw gwestiwn roeddynt am ei ofyn yn y Cyngor Llawn.

18. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (unfrydol).

19. O Law i Law

Cyflwynwyd adroddiad diweddariad ar O Law i Law.

Nodwyd:

(I) Bwrdd O Law i Law

Bod cofnodion y diwethaf o'r Bwrdd i'w weld yng nghofnodion y Cyngor Llawn – cyfarfod dyddiedig y 7fed o Fedi.

(II) Materion Cyffredinol - Trosolwg

- (1) Bod rhai materion ymarferol wedi bod yn anodd, er enghraifft sortio'r cyflenwad trydan.
- (2) Y cysylltwyd efo'r landlord yn datgan nad oeddem am wneud defnydd o'r cymal "break clause".
- (3) Bod angen ystyried ymestyn contract Cydlynnydd O Law i Law.

(III) Ceisiadau Ariannol – Diweddariad

- (1) Roedd grant sylweddol arall wedi ei ddenu o dan Gronfa Drosglwyddo Ewropeaidd 2021 - 2022: Mynd i'r Afael â Thlodi Bwyd a Mynd i'r Afael ag Ansicrwydd Bwyd (Atodiad A yn y rhaglen), a bod copi o'r gwaith papur ar gael gan y Clerc.
- (2) Roedd swm y grant yn £59,300 a rhaid oedd ei wario erbyn diwedd Mawrth 2022.
- (3) Roedd y llythyr grant wedi ei arwyddo a'i anfon yn ôl at Lywodraeth y Cynulliad.
- (4) Fel rhan o'r grant roedd cyllid ar gyfer Rheolwr Prosiect, ac roedd hwn fe welir copi o'r Swydd Ddisgrifiad drafft yn Atodiad B.
- (5) Roedd angen symud yn fuan i wneud y gwaith angenrheidiol ar y safle, er enghraifft atgyweirio a phrynu offer, ac roedd cais am dendr wedi mynd allan ar gyfer gwaith ar y gegin, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor Tref.

(IV) Y Cyfansoddiad - Diweddariad

Y rhannwyd fersiwn ddrafft o'r Cyfansoddiad, er mwyn ei drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd.

(V) Cais i gofrestru fel CIO - Diweddariad

- (1) Roedd y gwaith yn parhau o ran cofrestru fel CIO ("Charitable Incorporated Organisation"), a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod nesaf.
- (2) Bydd hyn yn cynorthwyo'r Cyngor o ran denu grantiau ar gyfer O Law i Law, ac ar gyfer mentrau eraill maes o law.
- (3) Roedd angen ystyried nifer yr ymddiriedolwyr a'u cysylltiad efo'r Cyngor.

(VI) Sefyllfa Gyllidol

Roedd y sefyllfa gyllidol gyfredol yn Atodiad C o'r adroddiad.

Penderfynwyd:

- (1) Cymeradwyo'r Swydd Ddisgrifiad y Rheolwr Prosiect (Atodiad B) mewn egwyddor er mwyn i'r Pwyllgor Personél ystyried ymhellach, a rhoi hawl dirprwyedig i'r Pwyllgor Personél ddelio efo'r mater.
- (2) Ymestyn contract Cydlynedd O Law i Law am gyfnod o 6 mis ar ben ei contract presennol.
- (3) Y dylai'r CIO gael 4 o gynghorydd fel Ymddiriedolwyr, gyda'r gweddill o'r aelodau annibynnol i'w hethol pan fydd y Cyfansoddiad mewn lle.
- (4) Na ddylai'r Dirprwy Clerc fod yn un o'r Ymddiriedolwyr gan ei fod yn gyflogedig i'r Cyngor Tref. Gan hynny y dylid gofyn i'r Clerc ofyn drwy e-bost pwy ddylai'r 2 Ymddiriedolwyr fod ymysg yr aelodau (ar wahân i'r Cynghorwyr Eleri Lovgreen a Cai Larsen – sydd eisoes yn Ymddiriedolwyr).
- (5) Y dylai'r holl waith papur terfynol o ran sefydlu'r CIO gael ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 2il o Dachwedd.
- (6) Bod y Cwmni Hyd Braich, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn gwarantu i rentu 14 Stryd Llyn gan y Cyngor Tref ar y costau a'r telerau a amlinellir yn y brydles.
- (7) Gwahodd y Wasg a'r Cyhoedd yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.45 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad